



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwnewch Wahaniaeth gyda ni

Prentisiaid 2019

Canllawiau ar ysgrifennu
eich cais

llyw.cymru/prentisiaethau2019

Gall y canllaw hwn eich helpu chi i ysgrifennu eich tystiolaeth ar gyfer y cais i Gynllun Prentisiaeth Llywodraeth Cymru.

1. Cyflwyniad

Mae'r ffurflen gais y gofynnwyd i chi ei chwblhau yn cynnwys amryw o adrannau lle disgwylir i chi roi manylion personol pwysig e.e. cadarnhau eich cymhwysedd, manylion eich swydd bresennol/fwyaf diweddar.

Bydd angen i chi hefyd ddarparu datganiad personol yn ateb tri chwestiwn ar wahân i ddangos bod gennych chi'r wybodaeth, y sgiliau, y galluoedd a'r rhinweddau personol eraill sydd eu hangen i gyflawni'r swydd.

Mae cael eich tystiolaeth yn iawn yn hanfodol gan y bydd paneli didoli a chyfweld yn defnyddio eich ymatebion i'r cwestiynau i asesu eich addasrwydd ar gyfer y cynllun ac i'ch cymharu chi ag ymgeiswyr eraill.

Dylai eich tystiolaeth fod:

- yn wir ac yn seiliedig ar ffeithiau
- yn ramadegol gywir
- wedi'i sillafu'n gywir

2. Paratoi

Cyn ysgrifennu unrhyw beth, dylech chi ddarllen yr holl wybodaeth, gan roi sylw arbennig i'r swydd-ddisgrifiad.

Dylech chi edrych yn ofalus hefyd ar yr holl wybodaeth ar y ffurflen gais fel y gallwch chi ei hystyried wrth ateb eich cwestiynau. Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus i sicrhau eich bod yn ateb y cwestiwn yn llawn.

Gwnewch rywfaint o ymchwil ar y sefydliad a meddyliwch sut y byddech chi'n addas ar gyfer y brentisiaeth. Ceisiwch ddangos eich addasrwydd a'ch brwdfrydedd tuag at y brentisiaeth. Meddyliwch yn ofalus am y swydd-ddisgrifiad yn yr hysbyseb a pha sgiliau a phrofiadau sydd gennych chi a fyddai'n ddefnyddio yn ystod y brentisiaeth.

Mae enghreifftiau cryfach yn tueddu i:

Ddangos yn llawn y cymhwysedd neu'r ymddygiad y gofynnir amdano.

Effeithio ar gwsmeriaid, grwpiau o bobl neu'r sefydliad i gyd.

Cefnogi amcanion a blaenoriaethau sefydliadol allweddol megis gweledigaeth y sefydliad, y strategaeth fusnes ac ati.

Cynnwys tystiolaeth o welliant mesuradwy a gefnogir gan ddata.

Mae enghreifftiau gwannach yn tueddu i:

Dim ond dangos y cymhwysedd y gofynnir amdano yn rhannol.

Effeithio ar ychydig iawn o bobl neu dîm bach.

Peidio â chysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw beth ar lefel strategol neu sefydliadol.

Cynnwys ychydig iawn o dystiolaeth neu ddata cadarn yn dangos deilliannau ac effaith gadarnhaol.

3. Ysgrifennu eich tystiolaeth

Gofalwch:

- **Fod eich atebion yn dangos eich rhesymau dros wneud cais**
- **Eich bod yn dangos yn glir pam y byddech chi'n addas ar gyfer y rôl**
- **Eich bod yn cynnwys enghreifftiau llawn sy'n eich galluogi i ddangos y tasgau a'r sgiliau allweddol a restrir yn yr hysbyseb, yn hytrach na rhestru eich profiadau**
- **Eich bod yn ysgrifennu digon, ond dim mwy na'r nifer geiriau a nodir**
- **Eich bod yn ysgrifennu yr un faint ar gyfer pob cwestiwn ar y ffurflen gais.**

Nid oes angen i chi ddechrau o'r dechrau bob tro

Mae'n debyg y bydd gennych chi syniad da o'ch sgiliau a'ch profiad blaenorol yn barod, ond mae lleydd da i edrych am ysbrydoliaeth yn cynnwys:

- **ceisiadau swydd blaenorol**
- **eich dogfennau arfarnu / dogfennau cofnod cyrhaeddiad**
- **unrhyw adegau y cawsoch chi ganmoliaeth neu gydnabyddiaeth benodol**
- **eich dyddiadur gwaith a'ch dyddiadur cymdeithasol**
- **darllen trwy adborth cadarnhaol rydych chi wedi'i dderbyn**
- **siarad â rheolwr, athro neu hyfforddwr**

Dim ond chi fydd yn gallu meddwl am yr atebion ar eich ffurflen gais, ond wrth gwrs bydd pobl sy'n eich adnabod yn dda yn gallu helpu, felly gofynnwch iddyn nhw am awgrymiadau hefyd.

Addasiadau Rhesymol

Rydym yn cynnig addasiadau rhesymol ym mhob cyfnod recriwtio. Rhwch wybod i ni cyn gynted â phosibl os oes unrhyw addasiad rydych chi ei angen er mwyn cwblhau eich cais neu mewn cyfweiliad. Fel Cyflogwr, rydym yn cynnig Cynllun Cyfweiliad Hyderus o ran Anabledd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i wneud cais i Lywodraeth Cymru, byddwn ni'n cynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer y swydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar staff) berfformio hyd eithaf ei allu. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad model meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd"). Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd.

Os oes gennych chi amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych chi'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain, a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu'n dymuno trafod sut y byddwn yn eich cynorthwyo pe baech yn cael eich penodi, anfonwch e-bost i sharedservicehelpdesk@gov.wales

Fel enghraifft, gweler isod rai addasiadau yr ydym wedi'u cynnig yn y gorffennol. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys pob amhariad, ac enghreifftiau ydynt yn unig; gwyddom fod anghenion unigol pawb yn wahanol ac efallai y bydd addasiadau eraill ar gael i fodloni eich anghenion chi. Dim ond os cawn wybod beth yw eich anghenion cyn ichi gyflwyno eich cais neu fynychu cyfweiliad y gallwn weithio gyda chi i drefnu addasiadau. Rydym wedi ymrwmo i gyflogi a datblygu gyrfaoedd pobl anabl ac rydym yn eich annog i siarad gyda ni am addasiadau os ydych eu hangen.

- **Awtistiaeth** - (Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistig) - Efallai y byddwn yn cynnig asesiadau unigol yn hytrach nag asesiadau grŵp, efallai y gellir ail-eirio cwestiynau er mwyn defnyddio iaith briodol.
- **Nam ar y Golwg** - Gellir gofyn am geisiadau mewn Braille a gellir darparu arweiniad ar gyfer cyfweiliad.
- **Enseffalomyelitis Myalgig (M.E.) / Syndrom Blinder Cronig (CFS)** - Gellir cynnig amser addas ar gyfer cyfweiliad i weddu i anghenion yr unigolyn.
- **Byddardod / Nam ar y Clyw** - Gallwn drefnu i ddehonglwr fynychu'r cyfweiliad.
- **Dyslecsia** - Gellir rhoi mwy o amser yn ystod y cyfweiliad neu ar gyfer unrhyw asesiad. Hefyd, gellir geirio'r cais mewn modd a fydd yn sicrhau ei fod yn glir ac yn llawn gwybodaeth.

Nam Symudedd ac Anghenion Mynediad - Gellir darparu ar gyfer y rhain hefyd.